

## Sut fydd derbyn fy Nghynnig Gofal Plant yn effeithio ar fy mudd-daliadau – Cwestiynau Cyffredin i Rien

### Beth yw Cynnig Gofal Plant Cymru?

Bydd y Cynnig Gofal Plant yn darparu i rieni cymwys sy'n gweithio, 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar i blant 3 a 4 oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Rydych chi'n gymwys i dderbyn y gofal plant ychwanegol os ydych chi'n byw mewn ardal beilot, os oes gennych chi blentyn o fewn yr ystod oedran ac os ydych chi'n ennill, ar gyfartaledd, yr hyn sy'n gyfwerth ag 16 awr neu fwy o'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol ond llai na £100,000 y flwyddyn.

**Rwy'n derbyn credydau treth gwaith; a alla i dderbyn y Cynnig?** Gallwch. Ni fydd derbyn y Cynnig yn effeithio ar hawl eich teulu i dderbyn credydau treth gwaith, a gallwch chi fanteisio ar y Cynnig ac ar gredydau treth yr un pryd.

**A fydd swm y credydau treth gwaith rwy'n eu derbyn yn cael ei effeithio?** Mae credydau treth gwaith yn cael eu cyfrifo ar sail incwm ac amcangyfrif o gostau gofal plant. Gall derbyn y Cynnig arwain at gynnydd yn eich incwm (er enghraifft, os gallwch chi weithio mwy o oriau) neu ostyngiad yn eich costau gofal plant, sy'n golygu efallai y byddwch chi'n derbyn llai o gredydau treth.

**Os bydda i'n derbyn y Cynnig, a fydd angen i mi ddatgan bod fy amgylchiadau wedi newid? Ydy hynny'n golygu y bydda i'n cael fy nhrosglwyddo i Gredyd Cynhwysol?** Bydd angen i chi roi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau eich bod chi'n derbyn y Cynnig a bod y swm rydych chi'n disgwyl ei wario ar ofal plant yn newid. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cael ei gyfrif fel newid ffurfiol mewn amgylchiadau ac ni fyddwch chi'n cael eich trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol yn awtomatig.

**Rwy'n derbyn Credyd Cynhwysol; a alla i dderbyn y Cynnig?** Gallwch. Mae'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gallu derbyn y Cynnig.

**A alla i barhau i ddefnyddio'r cymorth gofal plant sy'n cael ei ddarparu trwy Gredyd Cynhwysol a'r Cynnig?** Na, chewch chi ddim defnyddio elfen costau gofal plant y Credyd Cynhwysol am yr oriau o ofal plant a ariennir gan y Cynnig, ond gallwch hawlio costau gofal plant Credyd Cynhwysol am unrhyw ofal plant ychwanegol y mae angen i chi dalu amdano, naill ai ar gyfer eich plentyn 3-4 oed neu unrhyw blentyn arall ar eich aelwyd.

**Beth am Ofal Plant Di-dreth? A alla i ddefnyddio Gofal Plant Di-dreth gyda chredydau treth gwaith/Credyd Cynhwysol a'r Cynnig?** Gallwch ddefnyddio Gofal Plant Di-dreth os ydych chi'n derbyn y Cynnig, am unrhyw oriau ychwanegol sydd eu hangen arnoch chi. Ond, allwch chi ddim defnyddio Gofal Plant Di-dreth os ydych chi'n derbyn credydau treth gwaith neu Gredyd Cynhwysol.

